

## **Hysbysiad preifatrwydd Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS)**

### Pwy yw'r Rheolydd Data a'i fanylion cyswllt

Prifysgol Abertawe yw'r Rheolydd Data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

### Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef drwy anfon e-bost at [dataprotection@abertawe.ac.uk](mailto:dataprotection@abertawe.ac.uk)

### Pa wybodaeth y byddwn yn ei chasglu amdanoch chi?

- Eich enw
- Teitl swydd/rôl
- Coleg/ Ysgol/ Adran
- Cyfeiriad e-bost

### Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Bydd Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych at ddibenion gweinyddol mewn perthynas â'r digwyddiad SAILS.

### Beth yw ein sail gyfreithiol dros brosesu'ch data personol?

Mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu digwyddiadau, a phrosesir data gyda chydysyniad gwrthrych y data yn unig.

Mae gennych yr hawl i dynnu eich cydsyniad i brosesu eich data yn ôl. Gellir gwneud hyn drwy anfon e-bost at [cynwysoldeb@abertawe.ac.uk](mailto:cynwysoldeb@abertawe.ac.uk).

### Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw ar Eventbrite ac yn ddiogel ar ffeiliau electronig. Bydd yn cael ei hasesu gan aelodau staff o fewn yr [Academi Gynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe \(SAILS\)](#) ar gyfer dibenion gweinyddol yn unig.

Mae [Polisi Preifatrwydd Eventbrite](#) ar gael yma. Gall Prifysgol Abertawe gadarnhau y gellir cadw data personol dramor (yn unol â pholisi preifatrwydd Eventbrite) a bod Eventbrite yn ardystio eu bod yn cydymffurfio â deddf gyfrinachedd yr UE – U.D.A sydd wedi cael ei sefydlu gan Adran Fasnach U.D.A.

## Am faint o amser y caiff eich gwybodaeth ei chadw?

Byddwn yn cadw'r data personol rydych chi'n ei ddarparu am hyd at ddeuddeng mis.

## Diogelwch eich gwybodaeth

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn gosod dyletswydd arnom i gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hyn y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, a chymerir yr holl gamau priodol i atal pobl rhag cael mynediad ato na'i ddatgelu heb awdurdod. Bydd cofnodion o'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn cael eu cadw ar Eventbrite ac yn ddiogel ar ffeiliau electronig. Ni chaiff neb fynediad i'ch gwybodaeth, ac eithrio'r aelodau staff hynny y mae angen iddynt gyrchu rhannau perthnasol o'ch gwybodaeth, neu'ch holl wybodaeth.

[Gwelwch Bolisi Preifatrwydd Eventbrite yma](#) am wybodaeth ynghylch sut maent yn cadw eich data yn ddiogel.

## Pa hawliau sydd gennych?

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu, i gywiro, dileu a chyfyngu ar fynediad i'ch gwybodaeth bersonol a'i throsglwyddo. Ewch i [dudalennau gwe'r Brifysgol am ddiogelu data](#) i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau.

Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau'n ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data)  
Swyddfa'r Is-ganghellor  
Prifysgol Abertawe  
Parc Singleton  
Abertawe  
SA2 8PP  
E-bost: [dataprotection@abertawe.ac.uk](mailto:dataprotection@abertawe.ac.uk)

## Sut i gwyno

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, i ddechrau, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych dal yn anfodlon wedi hynny, mae gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael penderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,  
Wycliffe House,  
Water Lane,  
Wilmslow,  
Cheshire  
SK9 5AF [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)